# Ffurflen Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Enw'r Awdurdod Lleol:** CYNGOR SIR Y FFLINT

**Enw'r Swyddog Cyfrifol:** MIKE WELCH

**Teitl y swydd:** PRIF SWYDDOG GWASANAETHAU HAMDDEN

**Dyddiad cwblhau:** Noder bod rhaid i Lywodraeth Cymru dderbyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae erbyn 31 Mawrth 2016

play wales chwarae cymru

## Cynnal yr Asesiad - Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Yn ogystal â sefydlu darpariaeth sylfaenol, bydd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn galluogi’r canlynol:

- Nodi bylchau o ran gwybodaeth, darpariaeth, cyflenwi gwasanaethau a gweithredu polisi
- Cefnogi sefydlu tystiolaeth i roi syniad o'r pellter a deithiwyd mewn perthynas â digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Amlygu ffyrdd posibl o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth
- Mewnbwn a chyfranogiad yr holl bartneriaid yn cynyddu lefelau gwybodaeth a dealltwriaeth
- System fonitro a fydd yn cynnwys ac yn gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol
- Nodi enghreifftiau o arfer da
- Lefelau cynyddol o bartneriaethau wrth asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae
- Nodi camau gweithredu ar gyfer y Cynllun Gweithredu Sicrhau Digonolrwydd Chwarae sydd yn cyd-fynd gyda’r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Lluniwyd templed i gefnogi arfarniad corfforaethol o'r materion sydd angen eu hystyried fel y nodir yn y Canllawiau Statudol. Darperir y dangosyddion a restrir ym mhob mater fel dangosyddion enghreifftiol a dylid eu diwygio i fodloni materion lleol fel y bo'n briodol.

Rhaid i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddangos fod yr Awdurdod Lleol wedi ystyried ac wedi asesu'r materion a nodir yn rheoliadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012 a'r Canllawiau Statudol.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth sylfaenol, gall yr Asesiad gynnwys enghreifftiau o arfer cyfredol y mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno ei amlygu.

Gallai Awdurdodau Lleol ystyried strwythuro'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn y ffordd ganlynol ac o leiaf ymdrin â'r holl adrannau a nodwyd.

Datganiad o Egwyddor
Dylid defnyddio'r adran hon i gyfleu cydnabyddiaeth yr Awdurdod Lleol o ran gwerth a phwysigrwydd chwarae ym mywydau plant.

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i sicrhau bod holl blant, pobl ifanc a phlant cymunedau yn cael mynediad at ddigon o amser, lle a chaniatâd i chwarae fel rhan o'u bywydau bob dydd. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i sicrhau bod gan blant sy'n byw yn Sir y Fflint hawl i chwarae

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod chwarae yn ganolog i fwynhad plant o fywyd ac yn hanfodol er mwyn eu lles corfforol ac emosiynol a'u datblygiad iach. Rydym yn cydnabod y gall rhai agweddau ar ein cymdeithas fodern gyfyngu ar amser a lle ar gyfer chwarae plant a byddwn yn parhau i greu partneriaethau ar gyfer chwarae i helpu i greu amgylcheddau lle y gall plant chwarae yn rhydd ac annog cymunedau i fod yn fwy cyfeillgar i chwarae.

Mae'r Tîm Datblygu Chwarae yn gweithio gydag adrannau Awdurdod Lleol eraill ac asiantaethau partner, gan annog unigolion i gydnabod eu heffeithiau eu hunain ar chwarae plant; annog i chwarae gael ei ystyried wrth gynllunio gwasanaethau lleol; gwella datblygiad a chyflawniad prosiectau gwaith chwarae, a darparu cyngor ymarferol parhaus i deuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol wrth iddynt gefnogi hawl plant i chwarae.

Drwy waith y Tîm Datblygu Chwarae, mae Sir y Fflint yn rhoi mwy o werth ar chwarae a'r pwyslais ar hawl plant i chwarae, a thrwy gynyddu cyfleoedd ar gyfer chwarae mewn cymunedau lleol, byddwn yn gwella profiad y plant o dyfu i fyny yn Sir y Fflint

**Cyd-destun**
Dylai'r adran hon ddisgrifio'r fethodoleg a ddefnyddir i gynnal a chymeradwyo'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu ac unrhyw ymgynghori â phartneriaid ar yr Asesiad/Cynllun Gweithredu. Dylai hefyd restru'r partneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth y broses a nodi unrhyw heriau wrth gynnal yr Asesiad. Dylai ddisgrifio'r dull y mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu ei ddefnyddio i ddatblygu'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y cynllun gweithredu.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi adolygu ac asesu pob un o gynlluniau gweithredu ei chwarae ers yr archwiliad o'r llinell sylfaen a gynhaliwyd ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn 2013. Y broses adolygu ac asesu hon oedd y sail ar gyfer Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2016 a chreu'r cynllun gweithredu wedi hynny.

**Gweithio mewn partneriaeth**
Dylai'r adran hon ddangos i ba raddau roedd y canlynol (ac eraill) yn rhan o gynnal yr Asesiad ac o ddatblygu'r cynllun gweithredu:

- Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydliadau'r trydydd sector, yn enwedig cymdeithasau chwarae rhanbarthol
- Y sector preifat os yw'n briodol
- Grwpiau cymunedol
- Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gyda'r holl gynghorau tref a chymuned ar gyfer cynlluniau arian cyfatebol ardaloedd chwarae cyfarparedig a chynlluniau chwarae'r haf. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o bartneriaid eraill gan gynnwys sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol ar gyfer prosiectau chwarae sy'n cael eu cyflwyno ar draws y Sir

e.e.

Mae Uned Chwarae'r Awdurdod Lleol yn gweithio gydag Action for Children drwy'r grant Cyntaf i ddarparu Prosiect PALS - Cefnogaeth Chwarae a Hamdden

Cynlluniau Chwarae’r Haf Sir y Fflint 2015 mewn partneriaeth â’r holl gynghorau cymuned a chynghorau tref ac mewn trafodaeth ar gyfer 2016

Cynllun arian atebol ar gyfer uwchraddio ardaloedd chwarae cyfarparedig yn y Sir ar system RAG i nodi’r cymunedau hynny sydd fwyaf mewn angen

Mae’r Uned Chwarae yn gweithio mewn partneriaeth â’r Urdd i ddarparu cyfleoedd chwarae ar gyfer plant drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o raglen cynlluniau chwarae’r haf yn y sir.

**Ymgynghori a chyfranogiad**
Dylai'r adran hon ddisgrifio sut mae’r Awdurdod Lleol wedi gwneud y canlynol:

- Cael barn y plant am y cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd,

  sut y byddan nhw’n hoffi i’r gymuned eu cefnogi’n well i chwarae a pha rwystrau sy’n eu rhwystro rhag chwarae
- Cael barn ar ddarpariaeth chwarae gan rieni, teuluoedd a rhanddeiliaid eraill
- Dadansoddi’r wybodaeth a’i ddefnyddio’n sail i gynlluniau yn y dyfodol

Gofynnwyd i holl feysydd gwasanaeth a phartneriaid sydd ynghlwm yn y rhwydwaith chwarae ehangach yn Sir y Fflint i ystyried statws RAG 2013 a 2016 ac i wneud sylw o ran unrhyw newid.

Ymgynghorwyd â’r meysydd gwasanaeth canlynol:

- ➢ Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint
- ➢ Gwasanaethau Cefn Gwlad
- ➢ Dilyniant a Chynhwysiant
- ➢ Cefnogaeth a Newid Busnes
- ➢ Cynllunio ac Amgylchedd
- ➢ Iechyd a Diogelwch

- Mannau Agored Cyhoeddus
- Gwybodaeth a Chynhwysiant
- Datblygu Chwaraeon
- Strategaeth ac Adfywio Tai
- Cymuned a Menter
- Llyfrgelloedd, Celfyddydau a Diwylliant
- Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth

Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal arolwg 'ymadael' blynyddol o'r plant sy'n mynychu cynllun chwarae'r haf. Rhoddodd 290 o blant eu barn ar chwarae ar ddiwedd cyfnod cyflawni haf 2015

Cynhaliwyd ymgynghoriad sir gyfan o blant sy'n siarad Cymraeg yn 2014/15 mewn partneriaeth â Chwarae Cymru a'r Urdd

Drwy ymgynghoriad penodol casglwyd barn 41 o blant anabl oedd yn mynychu cynllun chwarae'r haf drwy gyfrwng Cynllun Cyfeillio Sir y Fflint

Mae'r holl wybodaeth hon wedi'i chydnabod a'i hymgorffori yng Nghynllun Gweithredu Chwarae 2016

**Sicrhau cymaint o adnoddau**

Dylai'r adran hon roi trosolwg o sut mae partneriaid yn defnyddio eu cyllidebau presennol ar hyn o bryd i gefnogi mynediad plant at gyfleoedd chwarae. Dylai nodi sut mae cyllidebau wedi'u blaenoriaethu o'r newydd fel rhan o Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2013 a'r cynlluniau dilynol.

Defnyddiwch yr adran hon i dynnu sylw at beth sydd wedi newid ers Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2013 o ran sut y caiff adnoddau eu dyrannu.

Dylech hefyd amlygu sut y defnyddiwyd rhaglenni Llywodraeth Cymru yn lleol ar gyfer darpariaeth chwarae a sut maen nhw wedi ymdrin â blaenoriaethau o'ch asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae 2013:

Mae'r awdurdod lleol wedi cynnal ei chyllideb graidd ar gyfer cyfalaf a refeniw chwarae plant. Fodd bynnag, oherwydd caledi ariannol mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio dod o hyd i ffyrdd i ddiwallu anghenion chware plant a chymunedau yn erbyn cefndir o galedi ariannol. Mae hyn yn her

Y grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru drwy PSA 203/14 a 14/15 oedd yr unig ffynhonnell cyllid i ddatblygu cyfleoedd chwarae a nodwyd yng Nghynlluniau Gweithredu Chwarae

E.e.

Gwella ardaloedd chwarae cyfarparedig yn yr ardaloedd hynny a nodwyd sydd fwyaf mewn angen

Treialu Prosiect 'Dyfodol Chwareus' i ddarparu tystiolaeth o sut mae diwrnod ysgol yn gwella drwy gynyddu ansawdd amser chwarae yn yr ysgol

Ymgynghori gyda'r plant Cymraeg eu hiaith drwy'r Urdd

Cynnal peilot brosiect yn y Sir yn benodol mewn perthynas â phlant sipsiwn crwydrol mewn partneriaeth â Chwarae Cymru

## Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Integredig Sengl

Dylai'r adran hon nodi sut mae'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ffurfio rhan o'r asesiad o anghenion lleol ac i ba raddau mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu hintegreiddio i gynllunio, gweithredu ac adolygu'r Cynllun Integredig Sengl.

Mae'r Prif Swyddog ar gyfer Dysgu Gydol Oes yn cynrychioli materion chwarae i'w cynnwys yn y Cynllun Integredig Sengl.  Y Prif Swyddog yw Cadeirydd y Bwrdd Teuluoedd yn Gyntaf yn Sir y Fflint a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Sir y Fflint.  Mae Fforwm Chwarae Strategol Sir y Fflint yn is-grŵp i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

## Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Dylai'r adran hon nodi'r cyfarwyddwr arweiniol ac aelod arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc.  Dylai hefyd ddisgrifio'r Grŵp Monitro Chwarae neu gyfwerth.  Ynghyd â rhestr o aelodau, disgrifiwch sut mae'r grŵp wedi'i hwyluso a manteision a heriau'r grŵp.

Yr Aelod Arweiniol ar gyfer chwarae yw'r Cynghorydd Kevin Jones, yr Aelod Arweiniol ar gyfer Strategaeth Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Hamdden.  Y Prif Swyddogion sydd yn cynrychioli chwarae yw Ian Bancroft, Prif Swyddog ar gyfer Sefydliadau Newid 1 Cymunedau ac Ian Budd, Prif Swyddog Dysgu Gydol Oes.

Bydd Fforwm Chwarae Strategol Sir y Fflint yn cael ei ail-ffurfio a'i adfywio yn nechrau 2016 yn dilyn ad-drefnu'r llywodraeth leol a bydd yn rhan o fforwm aml-asiantaeth i fonitro Cynllun Gweithredu PSA 2016.

Mae'r adran hon yn cynnwys y "materion sydd angen eu hystyried" fel y nodir yn adran 10 y Canllawiau Statudol.

**Y golofn Meini Prawf:** nodi'r data sydd angen bod ar gael ac i ba raddau mae Awdurdodau Lleol yn bodloni’r meini prawf a nodir.

**Y golofn statws RAG:** darparu blwch cwymplen, lle gall yr Awdurdod Lleol ddangos ei asesiad o p'un a yw’r meini prawf wedi’u bodloni’n llawn; yn rhannu; neu nad ydynt wedi’u bodloni. Rhoddwyd marcwyr Coch, Ambr a Gwyrdd i’r rhain, sy’n ymddangos fel geiriau yn y blychau cwymplen.

Mae statws Coch, Ambr Gwyrdd (RAG) yn offeryn i gyfleu statws yn gyflym ac yn effeithiol.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Meini Prawf wedi’u bodloni’n llawn. | Bodloni’n llawn |
| Meini Prawf wedi’u bodloni’n rhannol. | Bodloni’n rhannol |
| Nid yw’r meini prawf wedi’u bodloni. | Nid ydynt wedi’u bodloni |

**Y golofn Tystiolaeth i gefnogi cryfderau:** dylid defnyddio’r golofn hon i roi rheswm dros y statws a ddewiswyd ar gyfer y meini prawf dewis a sut y cedwir y dystiolaeth.
**Y golofn Diffyg:** dylid defnyddio’r golofn hon i esbonio'r ardaloedd lle nad yw’r Awdurdod Lleol yn bodloni'r meini prawf.
**Colofn y Cam Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu:** Dylid defnyddio’r golofn hon i ddangos blaenoriaethau cynllunio gweithredu’r Awdurdod Lleol am y mater hwnnw.
**Y Sylwadau Cyffredinol:** ar gyfer pob mater, dylent roi trosolwg clir o sut mae'r Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â bwriad a gweithrediad y mater hwn fel y nodir yn llawn yn y Canllawiau Statudol.

Dylai’r templed gael ei fonitro gan y swyddog sydd yn cydlynu’r Asesiad a dylai gael ei adolygu yn rheolaidd gan y Gweithgor Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

**Mater A: Poblogaeth**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data am nifer y plant sy'n byw yn yr Awdurdod Lleol i alluogi asesu eu gofynion chwarae posibl. Dylai'r data roi gwybodaeth am nifer y plant mewn categorïau gwahanol a allai effeithio ar eu gofynion chwarae. Dylai'r data hefyd ddangos os yw'r ardal wedi'i dosbarthu fel un dan anfantais/amddifadedd a ph'un a oes amcanestyniad poblogaeth 5 mlynedd ar gael.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n llawn. | (gwyrdd) |
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n rhannol. | (ambr) |
| Nid yw'r meini prawf wedi'u bodloni. | (coch) |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae data wedi'i ddadansoddi gan Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) | AMBR | AMBR | Bydd y Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd yn parhau i weithio i ganfod yr ardaloedd hynny sydd fwyaf angen gwasanaethau chwarae | | Bydd Cyngor Sir y Fflint yn ystyried, dadansoddi a dehongli data yng Nghyfrifiad 2011 ac yn ceisio darparu dadansoddiad allweddol i sylw'r cyhoedd. Yn benodol bydd Gwasanaethau Hamdden a Chynllunio yn parhau i ddatblygu dulliau presennol yn seiliedig ar ddata |
| Mae data cyfoes ar gyfer oedran: | AMBR | AMBR | | | |
| 0-3 | AMBR | AMBR | | | |
| 4-7 | AMBR | AMBR | | | |
| 8-12 | AMBR | AMBR | | | |
| 13-15 | AMBR | AMBR | | | |
| 16-17 | AMBR | AMBR | | | |
| Mae nifer wedi'i gofnodi cyfredol o blant anabl ym mhob grŵp oedran | AMBR | AMBR | | | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | newydd 2011 i nodi meysydd digonolrwydd a diffyg yn y ddarpariaeth chwarae. Gan weithio gyda’r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a’r Urdd, bydd Gwasanaethau Hamdden (Uned Chwarae) yn ceisio nodi lleoliad cyffredinol myfyrwyr Cymraeg sy'n mynychu Maes Garmon, yr unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint. Bydd y cyfrifiad lleol hwn, yn nodi anghenion chwarae’r grŵp hwn o blant a sut gallai'r anghenion hyn gael eu diwallu naill ai drwy'r ysgol (darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol) a/neu yn eu cymunedau lleol. Mae’r Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd ac yn ddiweddar mae |
| Mae gwybodaeth gyfredol o ran y nifer o blant sy’n defnyddio’r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf neu’n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg | AMBR | AMBR | Bydd y Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd yn parhau i weithio i ganfod yr ardaloedd hynny sydd fwyaf angen gwasanaethau chwarae | | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wedi cwblhau ymgynghoriad Sir gyfan gyda phlant Cymraeg eu hiaith a'u teuluoedd i ofyn am eu barn ar nifer ac ansawdd y ddarpariaeth chwarae ac i dreialu cynllun gyda sylw dyledus i'r angen am dai.<br><br>Bydd Cyngor Sir y Fflint yn ystyried, dadansoddi a dehongli data yng Nghyfrifiad 2011 ac yn ceisio darparu dadansoddiad allweddol i sylw'r cyhoedd. Yn benodol bydd Gwasanaethau Hamdden a Chynllunio yn parhau i ddatblygu dulliau presennol yn seiliedig ar ddata newydd 2011 i nodi meysydd digonolrwydd a diffyg yn y ddarpariaeth chwarae. Bydd y Gwasanaethau |
| Mae gwybodaeth gyfredol ynghylch ffactorau diwylliannol eraill a gofnodwyd, gan gynnwys iaith arall, a phlant sipsiwn crwydrol | GWYRDD | GWYRDD | Bydd y Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd yn parhau i weithio i ganfod yr ardaloedd hynny sydd fwyaf angen gwasanaethau chwarae | | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Hamdden (Uned Chwarae) yn parhau i geisio ymgysylltu â phlant o leiafrifoedd ethnig. |

**Sylwadau Cyffredinol:** **Mesurau Poblogaeth**

Sut mae/bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio ei ddata poblogaeth i gynllunio ar gyfer digon o gyfleoedd chwarae lleol?

Mae adran Mannau Agored Cyhoeddus yr Awdurdod Lleol yn y Gwasanaethau Hamdden gan gynnwys y Gwasanaeth Datblygu Chwarae yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddylunio gwasanaethau yn nhermau poblogaeth plant ac amddifadedd chwarae

Mae Datblygu Chwaraeon yn defnyddio hyn i helpu i gynllunio darpariaeth mewn ardaloedd ar draws Sir y Fflint a sicrhau ei fod yn briodol i oedran ac yn y lle cywir ar yr adeg iawn.

**Mater B: Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol**

Dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyflwyno data am sut mae'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn anelu at gynnig cyfleoedd chwarae sy'n gynhwysol ac annog pob plentyn i chwarae a chyfarfod gyda'i gilydd.

**Statws RAG:**

| | |
|---|---|
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n llawn. | |
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n rhannol. | |
| Nid yw'r meini prawf wedi'u bodloni. | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| Ddeall a darparu ar gyfer gofynion chwarae plant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell | AMBR | AMBR | | | Mae asesiad o fapio meysydd chwarae sefydlog wedi'i gynnal eisoes a chynigir fod yr asesiad hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach gan ddefnyddio Data Cyfrifiad 2011 i nodi lleoliadau'r angen mwyaf mewn ardaloedd |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gwledig. Bydd yr ymarfer hwn yn llywio penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol.<br><br>Cynigir y cynhelir trafodaethau pellach gydag Addysg (Cynhwysiant) a Thrafnidiaeth (Trafnidiaeth Gyhoeddus a Taith) i hyrwyddo datblygiad gwasanaethau trafnidiaeth amgen. |
| Deall gofynion chwarae plant Cymraeg eu hiaith a darparu ar gyfer y rhain | AMBR | AMBR | Yn ddiweddar bu i'r Uned Chwarae gwblhau ymgynghoriad gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd Cymraeg eu hiaith drwy grant PSA Llywodraeth Cymru 2015. Rhoddodd y cyllid hwb grant i'r Urdd mewn partneriaeth â Chwarae Cymru i | | Gweithio gyda'r Urdd a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i asesu faint o blant Cymraeg eu hiaith sydd mewn |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddadansoddi data gan 360 o deuluoedd. Mae'r data hwn yn cefnogi'r angen am fwy o gyfleoedd chwarae yn y Sir sy'n cael eu darparu trwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Hefyd mae tîm datblygu chwarae'r sir yn gweithio mewn partneriaeth â'r Urdd i ddarparu tri chynllun chwarae'r haf sy'n cael eu cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg<br><br>Mae partneriaeth gadarnhaol a pharhaus rhwng yr awdurdod lleol a'r Urdd a pharodrwydd mawr i ddatblygu cyfleoedd chwarae i blant yn y Sir ymhellach | | ardaloedd gwledig anghysbell gyda'r bwriad o ddatblygu darpariaeth chwarae briodol a sicrhau fod y ddarpariaeth bresennol yn rhoi'r cyfle i sgwrsio drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae angen ystyriaeth bellach er mwyn parhau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau fod anghenion lleol yn cael eu bodloni p'un a yw hynny yng nghyhoeddiad dogfennau FCC neu wrth gyflawni gwasanaethau FCC sy'n cynnig y potensial i bobl siarad Cymraeg. |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | I weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys yr Urdd ac ysgolion Cymraeg eu hiaith a gyda Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i asesu anghenion chwarae plant Cymraeg eu hiaith gyda'r bwriad o ddatblygu darpariaeth chwarae newydd priodol ac i sicrhau bod y ddarpariaeth bresennol yn rhoi cyfle i sgwrsio yn y Gymraeg. |
| Deall gofynion chwarae plant o gefndir diwylliannol gwahanol a darparu ar gyfer y rhain | AMBR | AMBR | Mae’r tîm datblygu chwarae yn parhau i nodi cysylltiadau i wahanol grwpiau a sefydliadau, nodi hyfforddiant ar gyfer staff, | | I barhau i nodi partneriaethau i gynyddu a gwella'r cyfleoedd i blant chwarae mewn |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | darparu hyfforddiant amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pob aelod o staff a gweithio gyda'r tîm cydlyniant Cymunedol i ddatblygu cyfleoedd chwarae i bob plentyn yn y Sir ymhellach | | sesiynau cynhwysol ac integredig |
| Deall gofynion chwarae ac anghenion cefnogi plant anabl a darparu ar gyfer y rhain. | AMBR | AMBR | | | I lobïo Llywodraeth Cymru i wneud digon o arian ar gael er mwyn parhau i ddarparu digon o 'Gyfeillion' i alluogi plant anabl i gael mynediad at |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ddarpariaeth chwarae. |
| Mae gan brosiectau a darparwyr chwarae fynediad at ystod o adnoddau sy'n cefnogi cynhwysiant | COCH | COCH | | | I lobïo Llywodraeth Cymru i ddyrannu adnoddau ychwanegol er mwyn parhau â'r gyllideb gyfredol ar gyfer Gwasanaeth Chwarae Sir y Fflint |
| Mae mecanwaith adnabyddus a gytunwyd arno sy'n cael ei defnyddio i adnabod yr angen am ddarpariaeth ar wahân ar gyfer plant anabl | AMBR | AMBR | | | I ymgysylltu â Gwasanaeth Anabledd Integredig Plant ac archwilio pa botensial sydd i ddatblygu a gwella systemau ar gyfer plant anabl er mwyn cael digon o gyfleoedd chwarae<br>I ddiweddaru Arolwg Ardal |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Chwarae FCC ac i ystyried cynnal asesiadau DDA llawn o'r holl ardaloedd chwarae wrth ddiweddaru'r Arolwg. Uned Chwarae Mannau Agored Cyhoeddus FCC mewn partneriaeth â Gwasanaethau Corfforaethol FCC i ddatblygu cynllun peilot i safle sipsiwn crwydrol gael ei rheoli a'i gweithredu gan Gyngor Sir y Fflint mewn partneriaeth â'r gymuned leol. |
| Cynnal archwiliadau mynediad ar gyfer yr holl ddarpariaeth chwarae fel y | GWYRDD | GWYRDD | Mae proses barhaus i reoli mynediad at yr holl fannau chwarae cyfarparedig i blant | | Bydd angen asesiad pellach mewn perthynas â |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| disgrifir yn y canllawiau | | | yn y sir | | safleoedd awdurdodedig eraill i nodi anghenion chwarae a p'un a oes materion o ddiffyg |
| Man chwarae dynodedig yn cael ei ddarpari a'i gynnal a'i gadw'n dda ar safleoedd sipsiwn crwydrol | COCH | COCH | Mae dyhead yn yr awdurdod sydd angen parhau i gael ei ddatblygu drwy weithio mewn partneriaeth, fodd bynnag Chwarae Cymru drwy arian a dderbynnir gan grant PSA yr awdurdod lleol. Maent yn cynllunio i weithio gyda meysydd gwasanaeth eraill e.e. tai ac maent yn cynllunio i beilota lleoliad chwarae dan oruchwyliaeth yn ystod 2016 i nodi a datblygu cyfleoedd chwarae wrth symud ymlaen | Ar hyn o bryd nid oes arian ar gael | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cynhelir cysylltiadau drwy' dîm datblygu chwarae'r awdurdod lleol<br>Cynhelir cysylltiadau drwy' dîm datblygu chwarae'r awdurdod lleol | | |
| Deall y gofynion ar gyfer gofalwyr ifanc a darparu ar gyfer y rhain | AMBR | AMBR | | | |
| Deall y gofynion ar gyfer plant lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol (LGB) a darparu ar gyfer y rhain | GWYRDD | GWYRDD | | | |
| Deellir gofynion plant anabl a darparu ar gyfer y rhain mewn mentrau traffig a thrafnidiaeth | AMBR | AMBR | | | |

**Sylwadau Cyffredinol: Darparu ar gyfer Anghenion Amrywiol**

Sut y defnyddiwyd data (neu sut y defnyddir y data) i fynd i'r afael â rhwystrau mae plant ag anghenion amrywiol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyfleoedd cynhwysol ar gyfer chwarae?

UNED CHWARAE – ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â:
Gwasanaeth Pontio Teuluoedd yn Gyntaf Action for Children (Prosiect PALS) - prosiect teuluoedd yn gyntaf wedi'i ariannu i gefnogi

pobl ifanc rhwng 14 a 25 mlwydd oed ar y sbectrwm awtistiaeth i gael mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden gyda chyfaill
Datblygu Chwaraeon, Rhaglen Chwaraeon y Ddraig - cynnig staff cyfaill lle bo'n bosibl i gefnogi plant rhwng 5 a 12 mlwydd oed gydag anghenion ychwanegol i'w galluogi i gael mynediad at weithgareddau chwaraeon yn ystod sesiynau y tu allan i'r tymor

Bydd yr awdurdod lleol mewn partneriaeth â Chwarae Cymru yn treialu prosiect chwarae cenedlaethol yn targedu plant sipsiwn crwydrol yn y Sir yn 2016/2017. Mae hyn wedi'i alluogi drwy Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer digonolrwydd chwarae yn Sir y Fflint

Gwaith Datblygu Chwaraeon gyda Chwaraeon Anabledd Cymru a'u rhaglen Insport i gynllunio a chyflwyno cyfleoedd hygyrch a chynhwysol ar gyfer plant. Yn ogystal â hyn mae'r sesiynau KidzFit yn gynhwysol ac yn gweithredu ar broses atgyfeirio partner a hunan-atgyfeirio. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i roi cymwysterau chwaraeon i ofalwyr ifanc er mwyn cefnogi eu datblygiad a'u hanghenion chwarae.

Rhaglen Datblygu Chwaraeon Actif 4-16 wedi'i ariannu gan Teuluoedd yn Gyntaf - yn darparu cefnogaeth ychwanegol i blant a phob ifanc rhwng 4 a 16 mlwydd oed gydag anghenion ychwanegol i gael mynediad at chwaraeon a gweithgareddau'r brif ffrwd yn Sir y Fflint, mae'r rhaglen hon hefyd yn cynnig cynllun cyfaill ochr yn ochr â rhaglenni ffitrwydd teulu a rhaglenni maeth, mae Kidz Fit yn rhaglen a ddatblygwyd o Actif 4-16 i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau chwaraeon cynhwysol mewn amgylchedd diogel.

Nid yw Addysg yn cadw cofnodion o blant gydag anabledd, er bod ganddynt wybodaeth am y rhai gydag anghenion addysgol arbennig drwy PLASC - mae hyn ar gyfer plant oedran ysgol yn unig, oni bai fod iechyd wedi rhoi gwybodaeth cyn-ysgol iddynt megis y rhai â nam synhwyraidd sylweddol ac ati.

**Mater C: Mannau sydd ar gael i blant chwarae: Mannau Agored a mannau chwarae dynodedig heb staff**

Dylai'r Awdurdod Lleol gydnabod bod pob man agored yn eu hardal yn ardaloedd pwysig posibl lle gall plant chwarae neu fynd drwyddo i gyrraedd mannau chwarae eraill neu fannau lle maent yn mynd.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n llawn. | (gwyrdd) |
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n rhannol. | (oren) |
| Nid yw'r meini prawf wedi'u bodloni. | (coch) |

## Mannau Agored

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal Asesiad Mannau Agored (OSA) sy'n mapio ardaloedd a ddefnyddir, neu y gellid eu defnyddio ar gyfer chwarae fel y rhestrir yn y Canllawiau Statudol | AMBR | AMBR | Yn 2005, cynhaliodd FCC Asesiad Mannau Agored. Diweddarwyd y ddogfen hon er mai yn rhannol yn 2010, fodd bynnag, mae hyn bellach yn hanesyddol. Er bod yr arolwg hwn yn hanesyddol mae'n yn dal yn berthnasol i heddiw ac mae'n ffurfio'r man cychwyn | Mae'r asesiad yn 11 mlwydd oed erbyn hyn. Roedd yr astudiaeth yn seiliedig yn wreiddiol ar y safon 6 erw sydd wedi'i ddisodli â chanllawiau newydd gan FIT (008 & 2015) Mae angen diweddaru'r astudiaeth o ran darpariaeth mannau agored newydd, newidiadau i fannau | Mae angen diweddaru'r Arolwg Mannau Agored yng nghyd-destun Safonau diwygiedig FIT 2015. |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ar gyfer asesiadau o fannau agored manwl ar gyfer cymunedau unigol | agored sy'n bodoli eisoes, a'r angen i ddiweddaru'r data poblogaeth. | |
| Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal astudiaeth Mannau Gwyrdd Hygyrch sy'n mapio ardaloedd a ddefnyddir ar gyfer chwarae | AMBR | AMBR | Mae FCC wedi cynnal arolwg ANGSt | Mae angen arolwg ing eu hystyried o fewn yr arolwg gofod agored sydd ar hyn o bryd yn ystyried mannau chwarae a hamdden yn unig. | Mae safonau diwygiedig FIT nawr yn cyfeirio at fannau naturiol a safonau. Arolwg Mannau Agored diwygiedig. |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal archwiliadau mynediad ym mhob man agored ac yn gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch | AMBR | AMBR | Cynhaliodd FCC archwiliadau mynediad ar gyfer yr holl fannau chwarae cyfarparedig, parciau sglefrio a MGUAs fel rhan o arolwg maes chwarae 2010. | Mae Arolwg 2010 yn dal yn berthnasol ac mae swyddogion yn ymgymryd â monitro'r Arolwg hwn yn flynyddol i nodi gwelliannau a dirywiad yn narpariaeth cyfleusterau. | Parhau i fonitro a gweithredu arolwg 2010. |
| Mae'r Awdurdod Lleol wedi datblygu ei Safonau Mannau Agored ei hun unol â gofynion a chyngor Polisi Cynllunio Cymru | AMBR | AMBR | Yn 2013, mabwysiadodd FCC ei Strategaeth Mannau Gwyrdd - mae'r safonau mannau agored wedi'i gynnwys ynddo | Dim | Dim |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal ac yn gweithredu | AMBR | AMBR | Cynhaliodd FCC archwiliadau maes chwarae | Mae Arolwg 2010 yn dal yn berthnasol ac mae | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| asesiadau Chwarae Agored sy'n cynnwys camau gweithredu i wneud gofod cyhoeddus yn glir o beryglon | | | ar gyfer y mannau chwarae cyfarparedig, parciau sglefrio a MUGAs fel rhan o arolwg maes chwarae 2010. | swyddogion yn ymgymryd â monitro'r Arolwg hwn yn flynyddol i nodi gwelliannau a dirywiad yn narpariaeth cyfleusterau. | Parhau i fonitro a gweithredu arolwg 2010 |
| Mae safleoedd Brownfield sydd yn eiddo i'r Awdurdod Lleol yn cael eu hasesu am y potensial i'w hadennill i ddarparu ar gyfer chwarae plant | COCH | COCH | Ni chynhaliwyd hyn erioed ac yng ngoleuni'r pwysau ariannol presennol mae'n annhebygol o gael ei gynnal | Mae'r pwysau ariannol ar y Cyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau yn golygu bod yr holl asedau yn cael eu hasesu i sicrhau'r gwerth gorau | Dim |

## Mannau Chwarae Dynodedig yn yr Awyr Agored Heb eu Staffio

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | RAG Statws 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod cyfredol o'r holl fannau chwarae dynodedig fel y disgrifir yn y Canllawiau | GWYRDD | GWYRDD | Mae'r data hwn ar gael gan FCC | Dim | Dim |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | RAG Statws 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| Statudol | | | | | |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn asesu mannau chwarae ar gyfer gwerth chwarae a'r potensial i gynyddu chwarae fel y nodir yn y Canllawiau Statudol | GWYRDD | GWYRDD | Cynhaliodd FCC archwiliadau maes chwarae ar gyfer y mannau chwarae cyfarparedig, parciau sglefrio a MUGAs fel rhan o arolwg maes chwarae 2010. | Mae Arolwg 2010 yn dal yn berthnasol ac mae swyddogion yn ymgymryd â monitro’r Arolwg hwn yn flynyddol i nodi gwelliannau a dirywiad yn narpariaeth cyfleusterau. | Dim |
| Mae'r awdurdod lleol yn cynnal archwiliadau mynediad ym mhob man chwarae dynodedig ac yn gweithredu cynigion i wella mynediad a diogelwch | GWYRDD | GWYRDD | Cynhaliodd FCC archwiliadau maes chwarae ar gyfer y mannau chwarae cyfarparedig, parciau sglefrio a MUGAs fel rhan o arolwg maes chwarae 2010. | Mae Arolwg 2010 yn dal yn berthnasol ac mae swyddogion ymgymryd â monitro’r Arolwg hwn yn flynyddol i nodi gwelliannau a dirywiad yn narpariaeth cyfleusterau | Dim |
| Mae’r Awdurdod Lleol wedi datblygu a chytuno ar safon darpariaeth chwarae sefydlog newydd | GWYRDD | GWYRDD | Yn 2013 mabwysiadodd FCC ei Strategaeth Mannau Gwyrdd - ynddo mae safon Mannau Agored sy’n cynnwys safonau gofod ansoddol ar gyfer chwarae cyfarparedig, hamdden a mannau gwyrdd. | Dim | |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal ac yn rhoi camau gweithredu asesiadau | GWYRDD | GWYRDD | Mae angen diweddaru’r Arolwg mannau Agored yng nghyd-destun Safonau | Mae Arolwg 2010 yn dal yn berthnasol ac mae swyddogion ymgymryd â | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | RAG Statws 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| mannau chwarae mewn mannau chwarae dynodedig ar waith | | | diwygiedig FIT 2015. | monitro’r Arolwg hwn yn flynyddol i nodi gwelliannau a dirywiad yn narpariaeth cyfleusterau | |
| Mae'r Awdurdod Lleol wedi cyflwyno meysydd chwarae di-fwg | GWYRDD | GWYRDD | Mae hyn wedi'i gyflwyno ac mae arwyddion priodol ym mhob un o fannau chwarae’r Sir | Dim | |
| Mae’r Awdurdod Lleol wedi tynnu arwyddion ‘dim chwarae pêl’ lawr i annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned | COCH | COCH | Dim cynnydd ar y mater hwn hyd yma | I edrych ar y potensial i adolygu'r arwyddion hyn gyda'r cynghorwyr lleol | |
| Mae’r Awdurdod Lleol wedi codi arwyddion, fel Arwyddion Blaenoriaeth i Chwarae i annog mwy o blant i chwarae yn y gymuned | AMBR | AMBR | Mae'r Cyngor wedi gosod arwyddion i annog chwarae mewn ardaloedd dynodedig | Fodd bynnag ni chodwyd arwyddion ychwanegol y tu hwnt i ardaloedd dynodedig | |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd caeau chwarae i blant chwarae pan wneir unrhyw benderfyniadau | AMBR | AMBR | Mae gweithdrefnau anffurfiol ar waith i sicrhau fod y mater hwn yn cael ei ystyried | Fodd bynnag mae'r mater hwn yn bennaf yn ystyriaeth eilaidd ar yr adeg hon o galedi ariannol | |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | RAG Statws 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| gwaredu | | | | | |
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnwys plant a'u teuluoedd mewn unrhyw ymgynghoriadau ynghylch penderfyniadau i waredu caeau chwarae | AMBR | AMBR | Mae'r weithdrefn ffurfiol ar gyfer gwaredu caeau chwarae yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â'r cyhoedd gan gynnwys teuluoedd | | |

**Sylwadau Cyffredinol: Mannau Agored**

Sut mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau cydweithredu rhwng Asesiadau Mannau Agored (OSA) ac Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i wella'r mannau ar gyfer chwarae?
Mae Gwasanaethau Hamdden a Chynllunio yn parhau i weithio'n dda mewn partneriaeth i gynnal Asesiadau Mannau Agored

**Sylwadau Eraill ar fannau chwarae dynodedig yn yr Awyr Agored heb eu staffio**

**Mater D: Darpariaeth dan oruchwyliaeth**

Dylai'r Awdurdod Lleol anelu at gynnig amrywiaeth o ran darpariaeth chwarae o dan oruchwyliaeth.

**Statws RAG**

| | |
|---|---|
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n llawn. | (gwyrdd) |
| Meini Prawf wedi'u bodloni'n rhannol. | (ambr) |
| Nid yw'r meini prawf wedi'u bodloni. | (coch) |

## Darpariaeth gwaith chwarae

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r Awdurdod Lleol yn cadw cofnod cyfredol o'r holl ddarpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth fel y disgrifir yn y Canllawiau Statudol | AMBR | AMBR | Mae'r tîm Datblygu Chwarae yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir y Fflint i ddiweddaru'r gronfa ddata sirol o holl wasanaethau a gweithgareddau. | | I sicrhau bod darpariaeth o wybodaeth gyfredol am holl ddarpariaeth chwarae FCC drwy Wefan Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd FCC<br>Bod Gwasanaethau Hamdden yn datblygu ac yn cynnal system ar gyfer cofnodi i sicrhau bod canfyddiadau'r Arolwg Chwarae yn gyfredol a bod |

| Meini Prawf | Statws RAG 2013 | Statws RAG 2016 | Tystiolaeth i gefnogi cryfderau | Diffygion | Camau Gweithredu a nodwyd ar gyfer y Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | modd cyfeirio buddsoddiad ar sail blaenoriaeth i'r ardaloedd chwarae sefydlog mwyaf anghenus hynny. |
